



Pwy yw Hannah Roberts?

O le ti'n dod?

Brynmawr, Blaenau Gwent

Ble wyt ti'n gweithio a pham wyt ti'n gweithio yno?

Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Dechreuais i weithio yn un o'r clybiau Carco am arian ychwanegol pan o'n i'n gwneud gwaith ieuenctid. Wedyn, daeth y cyfle o gael swydd lawn amser.

Sut brofiad oedd ennill Dysgwraig y Flwyddyn?

Un gwallgof! Dw i wedi cael mwy o sylw na beth o'n i'n meddwl y byddwn i. Yn syth ar ôl ennill, roedd teimlad bod pawb eisiau darn ohonof. Mae'r profiad wedi bod yn un cadarnhaol ac mae cyfleoedd wedi ymddangos o ganlyniad. Bydd hi'n flwyddyn brysur, ond edrychaf ymlaen at honno.

Pam dysgu'r Gymraeg? Beth yw'r pwynt....pawb yn siarad Saesneg nagyn nhw?

Wel imi, digwyddodd fel damwain. Yn amlwg roedd rhaid imi wneud tipyn yn yr ysgol, ond doedd dim digon gyda fi i gynnal sgwrs hyd yn oed. Doedd e ddim yn helpu gyda fy athrawes chwaith, doedd hi ddim eisiau dysgu cwricwlwm newydd ar y pryd, felly dywedodd hi paid â dewis Cymraeg yn yr ysgol. Felly, des i at y Gymraeg sawl blwyddyn wedyn.

Ro'n i gartref un haf o'r brifysgol ac edrychais am 'rywbeth' i'w wneud i ladd amser. Y 'rhywbeth' hwnnw oedd dysgu'r Gymraeg ar gwrs blasu Cymraeg i Oedolion. Pan es i yn ôl i'r brifysgol yn Aberystwyth i barhau gyda fy astudiaethau mewn Daearyddiaeth, sylweddolais i fy mod eisiau astudio mwy o Gymraeg. Gyda hynny, gofynnais i Adran y Gymraeg a oedd hi'n bosib imi newid i'w chwrs ar gyfer dechreuwyr pur. Rhoddodd tynged gyfle imi. Ro'n i'n lwcus iawn, a dechreuais i ddilyn y cwrs hwnnw yn 2010. Nid wyf yn edifarhau am ddim.

Dw i'n clywed y frawddeg honno'n aml yn y gwaith 'beth yw'r pwynt?' Wel, mae gallu siarad iaith arall yn rhoi cyfleoedd ac agor drysau i'r person. Mwy na hynny, mae'n rhoi cyfle iddynt godi hyder, darganfod llefydd newydd, a datblygu 'tolerance' a datblygu fel person.

Beth oedd y peth cyntaf iti feddwl amdano wrth glywed dy fod wedi ennill dysgwraig y flwyddyn?

Oh my God! Do'n i ddim yn disgwyl ennill. Ro'n i'n teimlo mor sâl y diwrnod hwnnw, dywedais i pan es i adref i newid fy nillad, fyddaf i ddim yn ennill ond awn ni am bryd o fwyd ffansi. Wel, yn amlwg o'n i'n hollol anghywir pan gyhoeddwyd fy enw! Hefyd, mae teimlad bod fy ngwaith caled wedi talu.

Pe fyddet ti'n gorfod dewis un pryd bwyd i fwyta bob dydd, a dyna'r unig fwyd a allet ti fwyta, beth fyddai'r bwyd hwnnw?

Creision. Kettle Chips os oes dewis.

Pwy yw dy arwr di?

Does dim un penodol gyda fi. Dw i ddim yn tueddu edmygu pobl yn y ffordd honno.

Mynyddoedd neu'r traeth? Teledu neu radio?

Traeth. Radio.

Beth oedd enw dy anifail anwes gyntaf?

Cassy

Beth wyt ti'n ei fwynhau neu ddim yn ei fwynhau am y byd Cymraeg?

Rwyf wrth fy modd bod pawb yn nabod ei gilydd, ac yn gyfeillgar iawn, dyna yn sicr dwi'n ei fwynhau. O ran ddim yn mwynhau, rwy'n teimlo weithiau bod pobl yn edrych yn ôl gormod ac yn gorfeddwl am hanes a beth sy wedi digwydd yn hytrach na gweld y bylchau yn y farchnad a chyfleoedd o'u blaenau.

Eisteddfod neu Eastenders?

Eisteddfod wrth gwrs. O leiaf mae drama hapus yno.

Pe fydde ti'n cael newid un peth am waith y Mentrau Iaith, beth fydde fe?

Arian- sut mae'n cael ei ddosbarthu; faint o arian y sir; beth gallwn ni wneud gyda'r arian.